

% y gweithgarwch sy'n berthnasol i'r Sector Garddwriaeth:

20% GWEITHGARWCH
GARDDWRIAETH

MAE **247** O FUSNESAU SYDD WEDI COFRESTRU
gyda Cyswllt Ffermio o'r sector Garddwriaeth.



Rhwydwaith Safle Arddangos

Mae Cyswllt Ffermio'n gweithio gyda ffermydd drwy Gymru, yn treialu technegau newydd ac yn gweithredu arfer gorau. Dyma enghreifftiau o ddiwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r sector garddwriaeth:

Sefydlu menter ffrwythau meddal modern 'casglu eich hun'

Roedd 32 yn bresennol mewn digwyddiad ar Safle Ffocws Fferm Great Pitton, oedd yn arddangos offer, twneli a system ar gyfer menter ffrwythau meddal 'casglu eich hun'.

Mae gan y safle 20 o dwneli polythen Sbaenaidd (gyda bwch yr holl ffordd ar hyd y gwaelod) gyda chafnau uchder pen bwrdd yn cynnwys bagiau rhisgl cnau coco lle tyfir y mefus heb bridd (dull hydroffoneg). Ym mhedwar o'r twneli tyfir mafon ar gansenni mewn potiau. Mae system wedi'i llunio ar gyfer cynhyrchu cnydau sy'n golygu bod y mefus yn cael eu symud o'r storfa oer a'u plannu bob tair wythnos fel bod cyfnod casglu'n para 14 wythnos. Gosodwyd seilo dŵr mawr wrth ymyl y sied cadw grawn, sy'n casglu glaw o'r to (gan ychwanegu maetholion ato) mewn sied bwmp gerllaw i ddyfrhau'r mefus. Mae angen amrywio crynodiad y maetholion a faint o ddŵr a roddir yn ôl cyfnod tyfu'r planhigion ac amodau'r tywydd. Caiff y plastig ei dynnu oddi ar y twneli yn yr hydref a'i aildefnyddio eto y tymor nesaf. Defnyddir peiriant wedi'i addasu ar gefn beic cwad i chwistrellu'r twnnel rhag clwy, ac maent yn gobeithio gweithredu cynllun Rheoli Pla Integredig i reoli thripsod a llyslau.

Dywedodd unigolion a oedd yn bresennol ei fod yn werthfawr iawn gweld fferm ffrwythau ar waith a dysgu am y system.



Systemau Taenu a Phlannu Uniongyrchol mewn Garddwriaeth

Nod y digwyddiad oedd rhoi gwybodaeth i ffermydd a pherchnogion tir am systemau taenu arloesol a sut y gellir eu defnyddio yn eu dulliau garddwriaethol eu hunain.

Rhoddodd Johannes Storch drosolwg o egwyddorion natur, cadw'r pridd yn ffrwythlon a sut i weithredu'r egwyddorion hyn yn ymarferol mewn garddwriaeth organig h.y. gorchudd parhaol dros wreiddiau a phridd; yn ogystal â chylchdroi cnydau a defnydd dwys o gnydau taenu a sut y gall patrwm o gylchdroi cnydau fwydo ei hun gyda deunydd taenu.

Prif negeseuon a ddysgwyd:

- Mae gwreiddiau bob amser mewn pridd ffrwythlon, felly ceisiwch efelychu natur a chynnwys deunydd organig yn y pridd.
- Rhaid i'r holl fesurau a weithredir o safbwynt cylchdroi cnydau, gwreithio a thrin y tir anelu at gynhyrchu mwy o wreiddiau.
- Mae angen taenu deunydd yn fanwl gywir (7-8cm) gan mai'r prif nod yw cau'r golau allan rhag i'r cnydau taenu a'r chwyn aildyfu.

Ffermio Llysiau Cymysg



Cynhaliwyd digwyddiad yn Safle Ffocws Tyddyn Teg i arddangos posibiliadau arallgyfeirio ar y fferm trwy ffermio llysiau cymysg a sut i ddatblygu system fwyd leol gynaliadwy sy'n gwerthu ei chynnyrch yn uniongyrchol i'r bobl leol.

Yn ystod y diwrnod dysgwyd am fusnes Tyddyn Teg fel menter gydweithredol y gweithwyr a sut maent yn gweithredu fel partneriaeth Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned ar chwe erw o dir. Mae'r fferm yn cynnal pum aelod o staff hunan gyflogedig amser llawn i fod yn gyfrifol am 120 o aelodau sy'n rhan o'r cynllun bocs llysiau ac sy'n talu £40 - £60 yr wythnos am focs o lysiau cymysg tymhorol. Mae gwerthu uniongyrchol yn hanfodol i sicrhau bod y busnes yn gynaliadwy ac yn hyfyw yn economaidd. Daw 75% o'r incwm o werthiant bocsys uniongyrchol; maent hefyd yn gwerthu i fwytai a siopau lleol, ac mae siop hunan-wasanaeth ar safle.

Cafodd y rhai oedd yn bresennol hefyd gipolwg ar y ffordd orau i reoli'r tir a'r maetholion i gynnal, ac os yw'n bosibl, gwella ffrwythlondeb y tir yn unol â rheoliadau organig y Gymdeithas Bridd.

Prif negeseuon a ddysgwyd:

- Os ydych ar fesurydd, dylid cynnwys dŵr gan ei fod yn gallu cael effaith sylweddol ar fusnes a hyfywedd y busnes.
- Byddwch yn ymwybodol pa gnydau sy'n hawdd eu gwerthu, fel wyllysiau, tomatos a phuprynnau.
- Ceisiwch ddefnyddio mathau o hadau F1 yn bennaf gan eu bod yn fwy dibynadwy ac yn cadw'n well, ac wrth dyfu cnydau isdrofannol, dewiswch fathau byr a rhai sy'n tyfu'n gynnar gan eu bod yn fwy tebygol o lwyddo.

EIP Cymru



Astudiaeth dichonoldeb ar gynhyrchu Serenyn (Squill) yng Ngogledd Cymru

Mae serenyn (*Drima maritima*) yn berlysiuyn lluosflwydd sy'n cynnwys cyfansoddion a ddefnyddir mewn moddion peswch. Mae'r prosiect hwn yn asesu p'un ai a fydd y planhigion yn tyfu yng Ngogledd Cymru a ph'un ai y bydd yn cynhyrchu lefelau digonol o gyfansoddion i'w gwneud yn fenter hyfyw.



Plannwyd bylbiau yn 2018 gan eu monitro i weld sut yr oeddent yn tyfu a ph'un ai a oedd angen chwynnu. Cynaeafwyd y bylbiau ym mis Gorffennaf 2019 ac maent wrthi'n cael eu hasesu i weld beth yw lefelau'r cyfansoddion actif.

Dadansoddi'r defnydd o beiriant chwynnu robotidd cyfrifiadurol ar gyfer gwaith garddwriaeth ar raddfa fach

Mae'r prosiect hwn yn ymchwilio i weld a yw peiriannau chwynnu robotidd yn opsiwn posibl ar gyfer ffermydd ar raddfa fach, yn arbennig ffermydd organig, lle gwaherddir defnyddio chwynladdwyr. Bydd y peiriannau chwynnu robotidd yn cael eu cymharu â system chwynnu â llaw gan roi sylw i gostau, amser a pha mor effeithiol y mae'r peiriannau hyn yn codi'r chwyn.

Yn ystod blwyddyn gyntaf y prosiect, roedd problemau am nad oedd y peiriant chwynnu robotidd yn gallu ymdopi â chynllun y cae. Mae angen safle gwastad ar yr offer robotidd a chnwd sy'n cael ei blannu'n unffurf. Ar hyn o bryd mae'r grŵp yn asesu pa welliannau y gellir eu gwneud wrth hau'r cnwd yn ogystal ag addasiadau i'r offer.

Datblygiadau diweddar i reoli clwy tatws hwyr mewn tatws

Roedd y digwyddiad hwn yn gyfle i ddysgu am:

- Brosiect EIP i asesu'r potensial i ddefnyddio echdynion o eiddew i reoli clwy tatws hwyr
- Dulliau eraill o reoli clwy tatws, rhag gorfod chwistrellu cemegau, yn cynnwys defnyddio copr
- Labordy maes Innovative Farmers ar ddefnyddio gorchudd rhwydog i reoli clwy tatws hwyr
- Prosiect Tatws Cynaliadwy Cymru, gan ddefnyddio tatws sy'n cael eu tyfu'n benodol i wrthsefyll clwy tatws

Mae gwaith a wnaed ym Mhrifysgol Bangor wedi dangos bod deunydd wedi'i echdynnu o ffrwythau'r eiddew â'r dail yn effeithiol iawn i reoli clwy tatws hwyr; a dangosodd cynllun treialu annibynnol yn ystod haf lle'r oedd nifer fawr o achosion o glwy tatws eu bod yr un mor effeithiol â'r cymysgedd safonol o driniaethau petro-gemegol. Y deunydd perthnasol a echdynnir o eiddew yw Hederin, moleciwl 'creu swigod' neu aelod o deulu cemegol o'r enw saponinaw, ac roedd pedwar cynllun tebyg i'r pedair triniaeth wedi'u sefydlu yn Nhy'n yr Helyg.

1. Dŵr
2. Cuprokyt (copr)
3. Hederin 0.1%
4. Hederin 0.3%

Dangosodd y plotiau treialu'n glir bod clwy tatws hwyr wedi lledaenu o un pen i'r safle. Roedd gwahaniaeth sylweddol i'w weld yn y plotiau 'heb unrhyw driniaeth' gan amlygu lefel uwch o glwy tatws.

Grwpiau Trafod



Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth

Paratowyd yr erthyglau technegol canlynol gan y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth:

- EICH BRWYDR YN ERBYN CLWY TATWS
- RHYFELY CHWYN: DYRCHAFIAD Y ROBOTIAID
- CWTOGI'CH COLLEDION: MANTEISIO I'R EITHAF AR FUDDION CYNLLUN RHEOLI MAETHOLION

Paratowyd y taflenni ffeithiau canlynol gan y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth:

- RHEOLITAFOL
- PRYFED GENWAIR AC IECHYD Y PRIDD

Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol

Cynhaliwyd 116 o ddigwyddiadau. Roedd y prif bynciau'n cynnwys:



Clinigau

Yng Ngorffennaf 2019 aeth Chris Creed o RSK ar ymweliad â thair fferm yn Ynys Môn i drafod defnydd tir amgen ar gyfer cynydu garddwriaethol.

Aseswyd ansawdd y pridd, a'r math o bridd ydoedd, yn weledol ym mhob lleoliad, a thrafododd Chris y gwahanol fathau o gynlluniau cynhyrchu garddwriaethol posibl.

- Grawnwin
- Hopys
- Ffrwythau meddal

Ar y safle trafodwyd sefydlu cynydu, maetholion a bygythiadau i iechyd planhigion. Hefyd cynghorodd Chris pa fathau o gnydau i'w dewis a phryd oedd yr amser gorau i'w cynaeafu. Rhoddodd y clinigau lawer o wybodaeth oedd yn benodol ar addasu tir ar gyfer cynlluniau cynhyrchu garddwriaethol, a rhoddwyd cyfle iddynt weld cynydu gwahanol fel menter y gellid ei chyflawni.

Mentor



Agrigôp

MAE **40** O GYFARFODYDD YN YMWNEUD Â'R SECTOR GARDDWRIAETH



Dyma enghreifftiau o themâu'r grŵp:

- Cadw gwenyn yn ymarferol
- Plannu a thyfu cynydu'n strategol
- Cynhyrchu seidr
- Brandio
- Deall y galw gan ddefnyddwyr
- Microfusnesau garddwriaethol

Rhaglen Fentora

Mae gennym **9** o Fentoriaid Garddwriaeth ar y fframwaith (yn cynnwys I Gwyddor Grawnwin ac I Gwyddor Cadw Gwenyn)

- Cliciwch yma am broffil Andy
- Cliciwch yma am broffil Jim
- Cliciwch yma am broffil Barbara
- Cliciwch yma am broffil Robb
- Cliciwch yma am broffil Carys
- Cliciwch yma am broffil Romeo
- Cliciwch yma am broffil Gary
- Cliciwch yma am broffil Teifi
- Cliciwch yma am broffil Jenny

Mae **50** yn cael eu mentora ar faterion Garddwriaethol, sy'n **12%** o'r holl rai sy'n cael eu mentora.

Mae'r pynciau a drafodwyd hyd yma'n cynnwys:

- Cadw gwenyn
- Cynnal busnes garddwriaethol llwyddiannus a chynaliadwy
- Cynhyrchu gwin

Hyfforddiant

Bu pedwar cyfnod ymgeisio rhwng Hydref 2019 a Medi 2019 a chynhaliwyd **808** o sesiynau hyfforddi yn ystod y cyfnod hwn.

O blith y nifer hwn roedd **21** o sesiynau gan fusnesau oedd yn cynnwys Garddwriaeth fel prif neu is-sector.



E-ddysgu

Rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn yn ymwneud â'r sector Garddwriaeth:

- Garddwriaeth Organig
- Gwella Iechyd y Pridd

Cliciwch yma i fynd i'r wefan.

